CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd ar 3 Gorffennaf 2023 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Darparwyd cysylltiad rhithwir yn ogystal.*

Presennol:
Cadeirydd Cyng Iwan Davies. Cyngr: Jan Culley, Hywel Davies, Iwan Davies, Ruth Davies, Amanda Edwards, Garethe El Tawab, Colin Lewis, Ken Symmons, Richard Rose, Clive Wychwood

CS A Edwards

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: 2

Sesiwn agored i'r cyhoedd gael codi unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r Gymuned hyd at 15 munud. Os na fydd aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno siarad, bydd y cyfarfod yn dechrau'n brydlon am 7pm.

Mynegodd dau o drigolion Croes-y-llan bryderon am y drafodaeth am yr arhosfan bws. Teimlent y dylai'r mater fod wedi ei gau pan gafodd ei drafod gynt gan y Cyngor. Er nad oeddent yn gwrthwynebu arhosfan bws os oedd yn gwella diogelwch, teimlent y dylai'r drafodaeth fod yn fwy cynhwysol o'r trigolion lleol.

Nodwyd eu sylwadau a diolchwyd iddynt am eu hamser.

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Nicky Redmond.

**2. Datgan Diddordeb ar faterion sy'n codi o'r Agenda**
Datgelodd y Cyng C Wychwood ddiddordeb personol yn eitem 9.1.1.
Datgelodd y Cyng I Davies ddiddordeb yn eitem 7.4 a 7.8 RAY Ceredigion. Ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r bleidlais.
Datgelodd y Cyng R Davies ddiddordeb personol yn Lle Tyfu, Coedmor a blychau blodau'r pentref.

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitemau y gellid eu datrys ar gyfer sesiwn gyfrinachol.
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno.

**4. Cadarnhau Cofnodion 26-06-23**

| 4. **Penderfyniad** | Cynigiwyd | Eiliwyd | |
|---|---|---|---|
| Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywif. | Cyng C Lewis | Cyng C Wychwood | Cytunwyd |

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Gorfodi Cynllunio*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*Diweddariad LDP2*

Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**

Roedd y CS A Edwards wedi bod mewn nifer o gyfarfodydd gan gynnwys y rheiny ar dai a gofal cymdeithasol. Soniodd am bryderon am ddefnyddio cynnyrch lleol mewn prydau bwyd ysgol. Roedd yn dda iawn ganddi gyhoeddi bod Llechryd wedi ei bennu'n hyb Cadw Cymru'n Daclus. Cytunwyd i gefnogi'r fenter drwy ddarparu bin ar olwynion i storio cyfarpar, i'w gadw yn Neuadd y Cwrwgl.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

*7.1 Taliadau Misol*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dŵr Cymru | Dŵr i'r bloc toiledau | 939.59 |
| | JDH Business Services Cyf | Archwiliad Mewnol | 390 |
| | Caroe and Partners Penseiri | Dylunio llwybr yr Eglwys | 1140 |
| | Un Llais Cymru | Hyfforddiant 7251 | 38.00 |
| | Neuadd y Cwrwgl | Hurio 979 | 40 |
| | S Davies | Gros | 448.22 |
| | SSE Swalec | Trydan i'r bloc toiledau | 170.77 |
| | Playsafety Cyf | Archwilio'r man chwarae | 102.60 |

Dywedwyd y gallai'r Cyngor geisio cael ad-daliad rhannol am gost Dŵr Cymru, ond y cyngor oedd talu yn gyntaf. Byddai angen dau ddarlleniad meter bythefnos ar wahân ar ôl trwsio'r man gollwng.

Cytunwyd i oramser y Clerc a byddai'n cael ei dalu ym mis Awst.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Derbyn y taliad fel y cawsant eu cyflwyno. | Cytunwyd |

*7.1.2 Cymhwysiad y Banc / Diweddariad y Gyllideb / Arian Wrth Gefn*

Nodwyd.

*7.2 Cyfarfodydd y dyfodol*
*7.2.1 Cyfieithu yng nghyfarfodydd y Cyngor*
Nid oedd dim gwybodaeth bellach ar gael.

*7.3.2 Defnyddio hen Ysgol Llangoedmor*
Nid oedd dim gwybodaeth bellach ar gael.

*7.4 Diogelu Data*
Argymell ei adolygu oherwydd gwybodaeth newydd oddi wrth Archwilio Cymru. Y dylai'r Cyngor ddefnyddio .gov neu'r Gymraeg gyfatebol, ac roedd dyfynbris am y costau ychwanegol ar gael.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Bod y Cyngor yn defnyddio llyw.cymru, a chymeradwyo'r costau ychwanegol i gofrestru. | Cytunwyd |

*7.5 Cofrestru tir*
Yn parhau.

*7.6 Cylchlythyr*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*7.7 Diweddariad am rodd o dir a chytuno ar unrhyw ymateb*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*7.8 Grantiau / Rhoddion*
*Ceredigion RAY Sesiynau penodedig ar gyfer Llechryd naill ai yn yr haf neu hanner tymor yr hydref.*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Y £500 i gael cymorth grant am ddwy sesiwn. Dyddiadau i gael eu cymeradwyo. | Cytunwyd |

*Cais gan Glwb Chwaraeon Llechryd am £5000*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gofyn am ragor o wybodaeth. | Cytunwyd |

*Macmillan heb ei bennu*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Rhoi £250. | Cytunwyd |

*7.9 Bathodyn y Swydd i'r Is-gadeirydd*
Yn parhau.

*7.10*
Dirprwyo awdurdod i'r Clerc i ddelio ag unrhyw faterion brys, gan gynnwys ceisiadau cynllunio (ar ôl ymgynghori â'r aelodau), tan y cyfarfod ym mis Ionawr 2023. Lle bydd yn ymarferol, gelwir cyfarfod eithriadol os bydd y Clerc, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn ystyried bod angen hyn ar gyfer unrhyw fater.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cymeradwyo'r dirprwyo. | Cytunwyd |

**8. Pwyllgorau**
*Y Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned*

Aelodau'r Pwyllgor: Cyngr J Culley, A Edwards, R Davies, C Wychwood

Cymeradwyo'r argymhelliad ar gyfer y ddogfen Gweledigaeth a Diben.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ar ôl newid mân yn y geiriad bod y polisi'n cael ei fabwysiadu. | Cytunwyd |

**9. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*9.1 Mannau Gweithredu – Priffyrdd i gynnwys Croes-y-llan*

*9.1.1 Arhosfan Bws yng Nghroes-y-llan*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Ar ôl nodi pryderon y trigolion am ymgynghori'n deg ac agored, bod ymgynghoriad drwy'r post yn cael ei drefnu gan y Clerc. Ni fyddai dim trafod gan unigolion na rhyngddynt yn digwydd. Yn amodol ar ganlyniadau'r arolwg byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud. | Cytunwyd |

A
*9.1.2 Croesfan yn Llechryd*
Gohiriwyd nes byddai'r arolwg ar gyfer yr arhosfan bws wedi ei gwblhau.

*9.2 Llwybrau troed / mannau agored*
Y taflenni a gynhyrchwyd gan y Cerddwyr fel rhan o'r prosiect Cerdded er Mwyn Llesiant wedi eu nodi a'u cymeradwyo. Byddai copiau'n cael eu dosbarthu.

Mynegwyd mai ychydig iawn o le parcio oedd ar gael i'r rheiny sy'n mynd ar y teithiau, ond nid oedd dim ateb amlwg i hynny.
Byddid yn cysylltu eto â CSC am arwyddion llwybrau troed sydd ar goll.

*9.2.1 Pont Llechryd/yr Afon – Nodi'r sefyllfa bresennol a chytuno ar unrhyw gamau pellach.*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**10. Amwynderau**
*10.1 Bloc Toiledau – Cymeradwyo drafft y ddogfen brydles*

Nodwyd, fel rhan o'r brydles, y byddai angen i'r Cyngor gael caniatâd y tirfeddiannwr i ychwanegu unrhyw beth y tu allan i'r bloc neu unrhyw hysbysiadau y tu mewn i'r bloc y gellid eu gweld o'r tu allan.

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Byddid yn ymchwilio i wresogydd atal rhew ar gyfer y man storio.<br><br>Byddai Danfo yn gwneud yr holl waith trwsio ar wahân i waith trydan. Byddid yn holi am drydanwr.<br><br>Byddai'r llwyn cerddinen (?) ar ddiwedd y bloc yn cael ei symud oddi yno gyda chaniatâd Neuadd y Cwrwgl. | Cytunwyd |

*10.2 Man / Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar ei gymeradwyo gan* Gymdeithas Cae Chwarae Llechryd.

*10.2.1 Gwaith heb ei wneud gan gynnwys gwaith trwsio o archwiliad ROSPA 2022*
Roedd archwiliad 2023 wedi cyrraedd ond heb ei adolygu.
Byddai'r Clerc yn trefnu cael dyfynbrisiau ar gyfer gwaith trwsio.

*10.2.2 Cyflwr llwybr y ffin*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cysylltu â Quartzcoat ac unrhyw gwmniau addas eraill am ddyfynbrisiau am ddatrys y problemau suddo a thrwsio'r llwybr. | Cytunwyd |

*10.2.3 Baw Cŵn*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.2.4 Adnewyddu'r ffrâm ddringo – bydd yn dal yn eiddo i'r CC*
Problemau Sovereign gyda'r gosod
Bydd adroddiad am ymweliad yr arolygwyr.

*10.3 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd*
Dim ymateb oddi wrth yr Eglwys yng Nghymru.

*10.4 Adeilad y Mileniwm*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.5 Mainc goffa i'r trigolion*
Mynd ar ôl y contractiwr gosod am ddyfynbris am wneud y gwaith.

*10.6 Darparu rhandiroedd*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.7 Cysgodfannau bws*
Nodwyd problemau gosod posteri.

*10.8 Diffibrileiddwyr*
Neuadd y Cwrwgl

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gan fod y diffib yn anodd ei osod yn ôl yn y cwpwrdd, byddid yn chwilio am gwpwrdd newydd. Gofynnodd y Clerc am i faint y diffib presennol gael ei anfon ati ac unrhyw gasyn neu sach. | Cytunwyd |

Llangoedmor
Byddai arwyddion pellach yn cael eu gosod gyda chaniatâd Cardi Builders.

Nodwyd gyda diolch fod Mr S Kings yn parhau i archwilio'r diffibrileiddiwr yn Neuadd y Cwrwgl a'r man chwarae a'r cae.

*10.9 Hysbysfyrddau*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*10.10 Biniau newydd (postyn, clawr, man chwarae)*
Y Clerc yn dal i gadarnhau a ellid prynu clawr.

*10.11 Blychau blodau*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Lle Tyfu Coedmor i gael gwybod y byddai'r Cyngor yn ddiolchgar iddynt am ofalu am y blychau i gyd, a chost y defnyddiau i gael eu talu gan y Cyngor drwy gytundeb. | Cytunwyd |

**11. Digwyddiadau**
*11.1* Glanhau Afon Teifi
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*11.2 Mari Lwyd*

| PENDERFYNWYD / GWEITHREDU | |
|---|---|
| Gohiriwyd tan gyfarfod mis Medi. | Cytunwyd |

**12. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*12.1 Cyng R Davies – Llywodraethwyr Ysgol*
Dywedwyd bob pennaeth newydd wedi ei benodi.

*12.2 Cyng A Edwards – Neuadd y Cwrwgl*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.3 Cyngr A Edwards ac R Davies – Cyfarfod PACT*
Nodwyd ymddeoliad y Cyng R Davies fel cynrychiolydd PACT. Os oedd unrhyw Gyng yn dymuno bod yn gynrychiolydd ar y grŵp, dylai gysylltu â'r Clerc.

*12.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd)*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.5 Cyng J Culley Pwyllgor Rhanbarthol Un Llais Cymru*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

*12.6 Cyng J Culley Pwyllgor Moeseg a Safonau*
Roedd hyfforddiant pellach wedi bod.

*12.7 Cyng C Lewis* Digwyddiad Rhanddeiliaid yr Afon
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

12.8 Cyng K Symmons *Cyfeillion Ysbyty Aberteifi*
Dim byd wedi ei ddwyn ymlaen.

**13. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghori heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**
Wedi ei chynnwys dan eitemau agenda penodol.

**14. Materion Personol - Cyfnewid Gwybodaeth rhwng Cynghorwyr**
Dywedwyd bod y 7 Seren yn dal heb ei werthu.

**15. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 04-09-23**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 9.36pm.*